# Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynghorau Cymuned a Thref

Lefel **llawr gwlad** llywodraeth leol yng Nghymru yw cynghorau cymuned a thref.

Mae dros **735** o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, ond nid oes gan bob cymuned gyngor.

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn **codi arian drwy drethi** (praeseptau) er mwyn cynnal gweithgareddau a gwasanaethau ar gyfer eich cymuned.

Rôl eich cyngor yw cynrychioli **buddiannau'r gymuned gyfan** - a chynrychioli buddiannau gwahanol rannau o'r gymuned yn gyfartal.

Mae cynghorau cymuned a thref yn gallu defnyddio eu **pwerau cyfreithiol** i ddarparu llawer o wasanaethau o ganolfannau cymunedol i fysiau. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth **mewn partneriaeth** â chyrff eraill.

## Panel Adolygu Annibynnol

Mae Panel Adolygu Annibynnol wedi ei sefydlu i ystyried rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyfodol.

Bydd yr adolygiad:

- yn ymchwilio i rôl bosib llywodraeth leol ar lefel islaw cynghorau Awdurdod Lleol, gan edrych ar arferion da
- yn diffinio'r model(au)/strwythur(au) mwyaf priodol ar gyfer cyflawni'r rôl hon
- yn ystyried sut y dylid rhoi'r modelau a'r strwythurau hyn ar waith ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw sefyllfaoedd lle na fyddent yn angenrheidiol nac yn briodol.

Disgwylir i'r adolygiad gymryd oddeutu blwyddyn.

# Mae'r Panel eisiau clywed gennych...

Mae'r Panel yn awyddus i glywed gan bawb - gan Gynghorau Cymuned a Thref eu hunain, gan eu cymunedau, gan y bobl y maent yn gweithio gyda hwy, gan ardaloedd sydd â chynghorau a chan ardaloedd hebddynt. Maent am gael eich barn ynghylch:



**C)** Am beth y dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod yn gyfrifol?

**C)** Sut y dylent weithredu?

**C)** Beth sy'n eu hatal rhag cyflawni dros y gymuned leol?

**C)** Sut y mae cynghorau'n sicrhau eu bod yn cynrychioli'r gymuned leol yn y ffordd orau bosibl?

Rhannwch eich barn â'r Panel.

E-bost: [Adolygiad.CTC.Review@gov.wales](mailto:Adolygiad.CTC.Review@gov.wales)

**@WG_localgov**



# Review of Community and Town Council Sector in Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## About Community and Town Councils

Community and town councils are the **grassroots** level of local governance in Wales.

There are over **735** Community and Town Councils in Wales, but not every community has a council.

£

Community and Town Councils **raise money through taxation** (precepts) to carry out activities and services for your community.

The job of your council is to represent the **interests of the whole community** – and to represent the interests of different parts of the community equally.

Community and town councils can use their **legal powers** to provide many services from community centres to buses. They also provide services **in partnership** with other bodies.

## Independent Review Panel

An Independent Review Panel has been set up to consider the future role of Community and Town Councils.

The review will:

- explore the potential role of local government below Local Authority councils, drawing on best practice
- define the most appropriate model(s)/structure(s) to deliver this role
- consider how these models and structures should be applied across Wales. This will include consideration of any situations in which they would not be necessary or appropriate.

The review is expected to take around a year.

# The Panel want to hear your views…

The Panel are keen to hear all views – from Community and Town Councils themselves, from the communities they serve, from the people they work with, from areas that have councils and areas that don't. They want your thoughts on:



**Q)** What should Community and Town Councils be responsible for?

**Q)** How should they operate?

**Q)** What's standing in their way to deliver for the local community?

**Q)** How do councils ensure they best represent their local community?

## Share your views with the Panel.

Email: Adolygiad.CTC.Review@gov.wales

**@WG_localgov**

